



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Diwygio'r System Apelio ar gyfer Ardrethi
Annomestig yng Nghymru

Ebrill 2018

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio'r system apelio ar gyfer prisiadau ardrethi annomestig yng Nghymru.

Gweithredu gofynnol

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Manylion cyswllt

Y Gangen Polisi Ardrethi Annomestig
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: LGF1Consultations@gov.wales

Copiâu ychwanegol

Cyhoeddir yr adroddiad hwn a chopïau o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad mewn ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dogfennau Cysylltiedig

Dolen at y ddogfen ymgynghori:

<https://consultations.gov.wales/consultations/reforming-non-domestic-rates-appeals-system-wales>

Diwygio'r System Apelio ar gyfer Ardrethi Annomestig yng Nghymru

Cyflwyniad.....	4
Cynigion	4
Ymgysylltu.....	5
Trosolwg o'r Ymatebion.....	5
Crynodeb o'r Ymatebion.....	6
Gwellla'r broses apelio.....	6
Cofrestru ar gyfer y broses apelio	7
Hyd pob cam.....	8
Darparu gwybodaeth.....	9
Gwybodaeth ychwanegol	10
Ôl-ddyddio apelau	11
Cosbau Sifil (Dirwyon).....	12
Ffioedd	14
Rôl Tribiwnlys Prisio Cymru	15
Y Gymraeg	16
Sylwadau Eraill.....	17
Y Camau Nesaf	17
Atodiad A: Rhestr o'r Ymatebwyr	18

Diwygio'r System Apelio ar gyfer Ardrethi Annomestig yng Nghymru

Cyflwyniad

1. Mae ardrethi annomestig yn cyfrannu mwy na £1 biliwn i ariannu gwasanaethau lleol hanfodol yng Nghymru – gwasanaethau y mae pawb sy'n talu ardrethi'n elwa arnynt.
2. Un o nodweddion allweddol y system ardrethi annomestig yw'r broses apelio. Mae Rheoliadau Ardrethi Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005 yn cynnwys manylion ar sut mae'r system apelio'n gweithredu, gan gynnwys yr amserlenni a'r sail dros apelio a'r broses y mae'n rhaid ei dilyn. Ni fu fawr o newid i'r system apelio yng Nghymru ers gwneud y rheoliadau hynny. Yn 2017, cychwynnodd Llywodraeth Cymru ar y broses o wella'r system apelio gyda newidiadau i weithrediad a threfniadau llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru.
3. Canfu adolygiad gan Lywodraeth y DU i'r ffordd mae'r system ardrethu annomestig yn cael ei gweinyddu yn Lloegr broblemau y barnwyd a oedd yn gwneud y system apelio'n aneffeithlon, gan achosi rhwystredigaeth i dalwyr ardrethi a chostau i'r llywodraeth, busnesau ac eraill sy'n talu ardrethi.
4. I roi sylw i'r materion hyn yn Lloegr, rhoddodd Llywodraeth y DU system apelio newydd ar gyfer ardrethi annomestig o'r enw Gwirio, Helio Apelio (GHA) ar waith yn 2017.
5. Canfuwyd problemau tebyg ag effeithlonrwydd y system apelio ar gyfer ardrethi annomestig yng Nghymru, ond ar raddfa llawer llai.
6. Diben ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, *Diwygio'r System Apelio ar gyfer Ardrethi Annomestig yng Nghymru*, oedd clywed barn ystod eang o randdeiliaid ar welliannau i'r broses apelio ar gyfer ardrethi annomestig. Roeddem wedi ymgynghori yn y cam cynnar hwn o'r broses er mwyn i ni allu ystyried y dystiolaeth sydd ar gael a'r safbwyntiau cyn cyflwyno newidiadau. Byddwn yn Gweithio ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru i sicrhau ein bod yn datblygu system addas i Gymru.

Cynigion

7. Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar sut y gellid gwella'r system apelio ar gyfer ardrethi annomestig yng Nghymru, gan ddisgrifio sut y gallai'r system

apelio adlewyrchu'n well amgylchiadau sy'n newid a gwneud y defnydd gorau o'r dechnoleg bresennol. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys agweddau penodol fel pa bryd a ddylid darparu technoleg yn ystod y broses apelio, y posibilrwydd o gyflwyno ffioedd ar gyfer apelau aflwyddiannus, cosbau sifil newydd am gyflwyno gwybodaeth ffug a'r gofyniad i apelio mewn modd cyfrifol ac atebol.


Ymgysylltu

8. Gwahoddwyd sylwadau fel rhan o gyfnod ymgynghori o 12 wythnos a oedd yn cychwyn ar 17 Hydref 2017 ac a ddaeth i ben ar 9 Ionawr 2018. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghoriadau gwefan Llywodraeth Cymru. Roedd ymatebwyr yn gallu cyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau ar bapur, trwy e-bost neu ar-lein, yn Gymraeg neu Saesneg.

Trosolwg o'r Ymatebion

9. Cafwyd cyfanswm o 39 o ymatebion sylweddol i'r ymgynghoriad, gyda bron y cyfan ohonynt gan dalwyr ardrethi neu gyrff cynrychioliadol. Mae Ffigur 1 yn dangos yr ymatebion a gafwyd fesul categori. O'r 39 o ymatebion, roedd 22 gan asiantau ardrethi neu gyrff cynrychioliadol proffesiynol. Cafwyd ymatebion hefyd gan sectorau penodol – manwerthu, twristiaeth a lletygarwch (cyfanswm o naw). Daeth gweddill yr ymatebion gan dalwyr ardrethi unigol a phartïon eraill â diddordeb.

Ffigur 1: Nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad fesul categori – *Diwygio'r System Apelio ar gyfer Ardrethi Annomestig yng Nghymru*



10. Mae rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Atodiad A. Mae ymatebion unigol ar gael ar gais oddi wrth y Gangen Polisi Ardrethi Annomestig.

Crynodeb o'r Ymatebion

11. Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu fel crynhoad o'r ymatebion a gafwyd. Nid yw'n ymdrech i gofnodi pob pwynt a wnaethpwyd gan ymatebwyr, ond yn hytrach i dynnu sylw at themâu allweddol.

Gwella'r broses apelio

12. Roedd yr ymgynghoriad yn disgrifio'r system apelio bresennol, ei hanfanteision a pham mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i wneud newidiadau i'r system.

Cwestiwn 1 Os ydych yn cytuno bod modd gwella'r broses apelio, pa agweddau ar y system y gellid eu gwella yn eich barn chi, a sut y gellid gwneud hynny?

13. Ymatebion i'r ymgynghoriad

- Roedd yr ymatebion o'r farn bod y system apelio bresennol yng Nghymru'n gweithio'n weddol dda ac mae'r hyn sydd ei angen yw mwy o dryloywder wrth asesu gwerthoedd trethadwy ac mewn data cymharol.
- Nid oedd llawer o ymatebwyr yn credu bod y system bresennol yng Nghymru wedi'i llethu gan apelau hapfasnachol a diangen. Roeddent yn ymwybodol bod Asiantaeth y Swyddfa Brisió wedi gwneud newidiadau yr oeddent yn credu a fyddai'n cael gwared ar apelau ffug ac a allai hwyluso'r broses apelio.
- Dywedwyd fod CCA yn rhy feichus, yn gyfyngol ac y byddai yn y diwedd yn ychwanegu at y baich gweinyddol i dalwyr ardrethi ac Asiantaeth y Swyddfa Brisió.
- Mynegwyd pryderon ynglŷn ag ariannu Asiantaeth y Swyddfa Brisió. Awgrymwyd y byddai cyflwyno fersiwn o system y CCA yng Nghymru'n gofyn am fuddsoddiad sylweddol mewn TGCh a staff i ddelio â Gwiriadau a Heriau'n brydlon.
- Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at y prinder gwybodaeth sydd ar gael i dalwyr ardrethi am eu prisiadau fel un o ddiffygion mawr y system. Awgrymwyd y dylai unrhyw system newydd sicrhau bod talwyr ardrethi'n cael yr ystod lawn o wybodaeth a ddefnyddir i wneud eu prisiadau. Dylai gwybodaeth lifo'r ddwy ffordd os yw negodiadau am gael eu cynnal yn effeithiol, ac i sicrhau bod anghydfodau'n cael eu datrys yn gyflym.
- Cynigiwyd y dylai'r broses apelio gynnwys adran lle gall apelydd apelio yn erbyn y dull prisio, ac nid yn erbyn lefel y prisiad yn unig.

- Gwnaethpwyd y pwynt y dylid dysgu gwersi o Loegr lle mae rhannu gwybodaeth yn anghytwys gyda gofyniad ar y talwr ardrethi i gyflwyno llawer mwy o wybodaeth nag Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sydd i bob pwrpas yn tanseilio'r broses 'Herio'.
- Dywedodd Tribiwnlys Prisio Cymru mai'r hyn sy'n allweddol i wella'r gweithdrefnau ar gyfer herio cofnodion rhestrï ardrethu oedd cyfnewid ac ystyried gwybodaeth yn gynnar ac y dylai hyn ddigwydd yng ngham y cais.

Casgliad

14. Ar y cyfan, roedd ymatebwyr o'r farn bod y system apelio bresennol yng Nghymru'n gweithio'n weddol dda ac roeddent yn cydnabod y gwella gellid elfennau o'r broses apelio. Y farn oedd na fyddai efelychu'n union y system a geir yn Lloegr neu gyflwyno rhywbeth yn rhy debyg yn ddymunol.

Cofrestru ar gyfer y broses apelio

15. Cynigiodd yr ymgynghoriad y dylai talwyr ardrethi barhau i gofrestru'n unigol cyn cychwyn ar unrhyw gam o'r broses apelio. Byddai angen i ymgeiswyr ddatgan eu buddiant yn yr eiddo dan sylw cyn bwrw ymlaen.

Cwestiwn 2	Beth yw eich barn chi ynghylch y gofyniad i dalwyr ardrethi gofrestru eu heiddo cyn cychwyn y broses apelio?
Cwestiwn 3	Sut ydych chi'n credu y dylai talwyr ardrethi allu datgan eu buddiant mewn eiddo?

16. Ymatebion i'r ymgynghoriad

- Y farn gyffredinol oedd nad oedd angen cyflwyno'r gofyniad hwn, gan ei weld fel lefel arall o fiwrocratiaeth a fyddai'n arafu'r broses apelio.
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o blaid cadw'r gweithdrefnau 'Awdurdod i Weithredu', a gyflwynwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio i awdurdodi asiant i weithredu ar eu rhan fel yr ateb symlaf a mwyaf ymarferol. Roedd teimlad y byddai'r weithdrefn hon yn rhoi dilysiad digonol ar gyfer cynnig ysgrifenedig ac y byddai'n atal apelau hapasnachol.
- Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn credu y byddai'n annhebygol iawn y byddai talwr ardrethi'n ystyried herio neu apelio yn erbyn eiddo nad oedd ganddynt fuddiant ynddo, a bod hynny felly'n dwyn amheuaeth ar yr angen i gofrestru eiddo gan y talwr ardrethi dan sylw.
- Cafwyd awgrymiadau y dylai awdurdodau bilio, gan eu bod yn gwybod pwy yw'r talwr ardrethi yn y rhan fwyaf o achosion wrth iddynt gyhoeddi ceisiadau am ardrethi, rannu'r wybodaeth ag Awdurdod y Swyddfa Brisio.
- Awgrymwyd y dylai cyflwyno bil ardrethi, bil cyfleustodau neu brawf tebyg fod yn ddigon, ac y gallai apelau gan landlordiaid gael eu hategu gan gofnodion y

Gofrestrfa Tir neu hunan ardystio. Awgrymwyd hefyd y gallai talwyr ardrethi gyfeirio Asiantaeth y Swyddfa Brisio at y Gofrestrfa Tir i gael yr wybodaeth.

- Roedd gwrthwynebiad cyffredinol i fabwysiadu'r system CCA a ddefnyddir yn Lloegr, gyda chryn feirniadaeth o'r hyn a oedd yn cael ei weld fel system porth annigonol a pherfformiad gwael y porth.
- Roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi'r cynllun, ac yn cytuno â chofrestru apelwyr. Fodd bynnag, cafwyd cydnabyddiaeth y gallai hynny arwain at arafu'r broses, a phwysleisiwyd na ddylai unrhyw broses gofrestru ar-lein fod yn feichus ac y dylai fod yn broses syml a rhwydd, gyda system TGCh ymarferol sy'n ateb y galw.
- Awgrymwyd hefyd y dylai talwyr ardrethi allu datgan buddiant yn ysgrifenedig, dros y ffôn neu ar-lein â naill ai'r awdurdod bilio neu Awdurdod y Swyddfa Brisio.
- Dywedodd Tribiwnlys Prisio Cymru fod y ddeddfwriaeth bresennol yn rhoi'r hawl i bobl heblaw talwyr ardrethi i herio asesiad prisio penodol a dywedodd na ddylid cyflwyno rhagor o gyfyngiadau i'r hawl hwn.

Casgliad

17. Nid oedd ymatebwyr yn credu bod angen ei gwneud yn ofynnol bod talwyr ardrethi'n cofrestru buddiant yn eu heiddo. Y teimlad oedd bod hynny'n lefel ychwanegol o fiwrocratiaeth a allai arafu'r broses apelio.
18. Barnwyd fod cyflwyno bil ardrethi, bil cyfleustodau neu brawf tebyg yn ddigon, ac y dylai talwyr ardrethi hefyd allu datgan buddiant yn ysgrifenedig, ar-lein neu dros y ffôn.

Hyd pob cam

19. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig y byddai'r broses apelio'n cynnwys terfynau amser ac y byddai'r terfynau newydd hyn yn pennu'r ffrâm amser ar gyfer delio ag apêl. Awgrymwyd hefyd y dylai ffrâm amser newydd gael ei bennu ar gyfer Tribiwnlys Prisio Cymru i ddelio ag apelau.

Cwestiwn 4	Beth yw eich barn ynghylch cyflwyno terfynau amser ar gyfer gwahanol gamau yn y broses apelio? Pa derfynau amser fyddai'n briodol yn eich barn chi?
------------	---

20. Ymatebion i'r ymgynghoriad

- Ar y cyfan, roedd ymatebwyr o blaid ymgysylltu cynharach rhwng talwyr ardrethi ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio, gan gyfnewid yr holl wybodaeth berthnasol mewn ffordd deg a thryloyw i ategu hyn.

- Roedd cefnogaeth gyffredinol i gyflwyno terfynau amser synhwyrol ar Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru ar gyfer ystyried apelau.
- Roedd ymatebwyr o blaid cyflwyno terfynau amser. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cael sicrwydd ynglŷn â maint yr ardrethi sy'n ddyledus i dalwyr ardrethi er mwyn eu galluogi i reoli eu harian ac i gynllunio'n effeithiol.
- Roedd ymatebwyr yn credu y gallai terfynau amser helpu cynghorau i leihau beichiau gweinyddol diangen o ran cyhoeddi biliau a gweithdrefnau adennill.
- Awgrymodd ymatebwyr, ar yr amod bod digon o wybodaeth yn cael ei rhoi gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar y cychwyn, y byddai'n rhesymol i ddisgwyl y byddai achosion syml yn cael eu datrys mewn 6 mis, a rhai mwy cymhleth mewn 12 mis.
- Roedd safbwyntiau'n amrywio o ran ffrâm amser resymol ar gyfer Tribiwnlys Prisio Cymru i ystyried apelau. Roedd yr awgrymiadau'n amrywio o 3 i 12 mis.
- Roedd pryderon y gallai cyfyngiadau ym mhob cam o'r broses gael goblygiadau i adnoddau gan na ddylid tybio y byddai gostyngiad a ragwelir yn nifer yr apelau o reidrwydd yn arwain at lefelau gwasanaeth gwell.
- Dywedodd Tribiwnlys Prisio Cymru na fyddai'n afresymol i bennu terfyn amser uchaf 'safonol' o 12 mis ar gyfer Asiantaeth y Swyddfa Brisio i ystyried cynigion i newid y rhestr ardrethu a chyhoeddi penderfyniad. Gellid ymestyn y terfyn amser hwn trwy gytundeb pob parti.

Casgliad

21. Roedd ymatebwyr o blaid cyflwyno terfynau amser ar gyfer gwahanol gamau'r broses apelio ac awgrymwyd amrywiaeth o amserlenni.

Darparu gwybodaeth

22. Roedd yr ymgynghoriad yn disgrifio dull ar gyfer darparu gwybodaeth ac o dan y dull diwygiedig, cynigiodd y byddai'n rhaid i dalwyr ardrethi gyflwyno'r holl wybodaeth oedd ar gael ar gychwyn y broses apelio.

Cwestiwn 5	Byddem yn croesawu eich barn ynghylch darparu tystiolaeth yn rhan o'r broses apelio, a'r rheolaethau ar gyflwyno tystiolaeth newydd ar ôl cychwyn y broses apelio. A oes ffyrdd eraill i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei chyflwyno?
------------	--

23. Ymatebion i'r ymgynghoriad

- Roedd cefnogaeth gyffredinol i alluogi rhannu gwybodaeth rhwng y talwr ardrethi ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar gychwyn y broses. Fodd bynnag, y teimlad oedd na ddylai'r gofyniad hwn fod ar y talwr ardrethi'n unig ond y dylai'r un gofyniad fod ar Asiantaeth y Swyddfa Brisio hefyd.

- Roedd nifer o ymatebwyr yn credu y dylai Awdurdod y Swyddfa Brisio orfod egluro a chyfiawnhau ei phrisiadau i dalwyr ardrethi.
- Awgrymwyd y gellid cytuno ar gyfres o bamedrau ynglŷn â'r hyn y bernir sy'n dystiolaeth 'berthnasol' rhwng Asiantaeth y Swyddfa Brisio a'r Fforwm Asiantau Ardrethu.
- Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno system sy'n ei gwneud yn ofynnol i Asiantaeth y Swyddfa Brisio rannu'r wybodaeth rentu a oedd yn sail i'w hasesiadau'n gynnar yn y broses i wella dealltwriaeth y talwr ardrethi ac i leihau nifer yr apelau, gan leihau'r baich ar Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru.
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn credu na ddylai talwyr ardrethi gael eu hamddifadu o'r hawl i gyflwyno gwybodaeth ychwanegol yn ddiweddarach yn y broses os byddai hynny'n helpu Asiantaeth y Swyddfa Brisio neu Dribiwnlys Prisio Cymru i wneud prisiad cywir.
- Roedd ymatebwyr yn bryderus y byddai gan Asiantaeth Prisio Cymru bŵer o dan y cynigion i benderfynu ar ddilysrwydd dystiolaeth ac y gallai hynny roi mantais annheg i'r Asiantaeth yn y broses apelio.
- Dywedodd Tribiwnlys Prisio Cymru pan fydd dystiolaeth yn cael ei chyflwyno gan apelydd y dylai Asiantaeth y Swyddfa Brisio orfod ymateb mewn modd cymesur a dangos dystiolaeth sy'n ategu ei safbwynt ac y dylai'r dystiolaeth hon gael ei chyfnewid cyn i'r Asiantaeth hysbysu'r apelydd o'i phenderfyniad.

Casgliad

24. Roedd ymatebwyr yn cefnogi mewn egwyddor y cynnig i gyflwyno gofyniad fod talwyr ardrethi neu eu cynrychiolwyr yn cyflwyno'r holl wybodaeth sydd ar gael ar ddechrau'r broses apelio ac y dylid cyflwyno rheolaethau o ran cyflwyno dystiolaeth newydd ar ôl cychwyn y broses apelio. Roeddent o'r farn hefyd y dylai unrhyw broses gael ei chyfleu'n eglur i'r talwr ardrethi gan gynnwys manylion am dystiolaeth dderbyniol er mwyn sicrhau na fydd yn rhwystro apelau dilys.

Gwybodaeth ychwanegol

25. Cynigiodd yr ymgynghoriad y dylai'r system apelio ar gyfer Ardrethi Annomestig gynnwys darparu gwybodaeth brisio fanwl ychwanegol i'r talwr ardrethi am eu heiddo. Byddai gwybodaeth o'r fath yn cael ei rhoi trwy wefan Awdurdod y Swyddfa Brisio a byddai ar gael cyn gynted ag y bydd y talwr ardrethi wedi cofrestru eu heiddo.

Cwestiwn 6	Pa wybodaeth ychwanegol a allai helpu talwyr ardrethi i ddeall sut y cyfrifwyd prisiadau unigol?
------------	--

26. Ymatebion i'r ymgynghoriad

- Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai sicrhau bod y dystiolaeth sylfaenol sy'n sail i asesiad ar gael yn lleihau nifer yr apelau hapfasnachol.
- Byddai ymatebwyr yn falch o weld Awdurdod y Swyddfa Brisio yn fwy agored yn y cam hwn o'r broses. Mae datgeliad llawn yn golygu eglurder a thryloywder.
- Roedd ymatebwyr o'r farn y dylai gwybodaeth rentu sy'n sail i asesiadau fod ar gael.
- Awgrymwyd y dylai manylion llawn ar sut y mae gwerth ardrethol yn cael ei gyfrifo fod ar gael i sicrhau bod y talwr ardrethi'n deall y cysylltiad â'r dystiolaeth sydd ei hangen wrth herio. Gallai manylion gynnwys cynlluniau eiddo a dadansoddiad o ardaloedd, sut maent yn cael eu prisio ac ati.
- Nodwyd fod Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar hyn o bryd yn rhannu tystiolaeth am rentu fel rhan o'r gweithdrefnau sy'n arwain at wrandawriad tribiwnlys ac nad oedd dim rheswm mewn egwyddor pam na allai hyn gael ei rhannu'n gynharach. Byddai hyn yn galluogi talwr ardrethi i benderfynu, heb apelio, a yw'r dystiolaeth sydd ar gael i Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn cyfiawnhau'r asesiad.
- Nododd Tribiwnlys Prisio Cymru fod prisiadau cryno a manylion am gynlluniau prisio ar gael ar-lein a'i bod yn gymharol hawdd i dalwyr ardrethi neu bartïon â buddiant i wirio'r manylion a'r mesuriadau a ddefnyddir i brisio eu heiddo trwy fynd i borth Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Nid oedd y Tribiwnlys yn credu y byddai'n hawdd gwella ar hyn.

Casgliad

27. Galwodd ymatebwyr am fwy o dryloywder yn y broses brisio. Mewn egwyddor awgrymwyd y dylai hyn gynnwys gwybodaeth sydd wedi cyfrannu at y prisiad, yn amodol ar ddeddfwriaeth diogelu data.

Ôl-ddyddio apelau

28. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig newid y trefniadau ar gyfer ôl-ddyddio apelau llwyddiannus.

Cwestiwn 7	Beth yw eich barn ynghylch ôl-ddyddio apelau llwyddiannus, ac ynghylch cysylltu hyn â darparu gwybodaeth berthnasol yn brydlon?
------------	---

29. Ymatebion i'r ymgynghoriad

- Roedd bron y cyfan o'r ymatebwyr yn teimlo nad oedd y cynnig yn un teg na rhesymol, ac y dylai apelau llwyddiannus gael eu hôl-ddyddio i ddyddiad cofnod yr hereditament ar y rhestr ardrethi. Roedd ymatebwyr yn teimlo nad oedd yn gyfiawn y gallai treth gael ei chodi ond heb ei had-dalu os canfuwyd ei bod yn anghywir.

- Roedd rhai ymatebwyr yn credu y dylai Asiantaeth y Swyddfa Brisió gynnal ei chronfeydd data prisio'n rheolaidd ac y dylai talwyr ardrethi ddisgwyl cael prisiad cywir. Os oedd prisiad yn anghywir heb fai ar eu rhan hwy, dylai'r talwr ardrethi fod â'r hawl i gael ad-daliad llawn.
- Roedd sawl ymatebwr yn teimlo y byddai'r cynnig yn golygu baich ychwanegol ar y broses apelio gan y byddai'n arwain at apelio yn erbyn mwy o asesiadau (a hynny weithiau heb sail) ar ddechrau rhestr ardrethi er mwyn diogelu rhag colledion posibl.
- Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai'n amhosibl herio prisiad ar unwaith, gan fod talwyr ardrethi'n gorfod cofrestru a hawlio eiddo, a pharatoi heriau manwl, ynghyd â'r holl dystiolaeth ategol. Y farn oedd na fyddai hyn yn caniatáu'r posibilrwydd o gael ad-daliad llawn wedi'i ôl-ddyddio.
- Roedd un ymatebwr yn credu y dylai apelau gael eu hôl-ddyddio i'r pwynt lle'r oeddent yn anghywir, a bod trefniadau eraill yn cael eu datblygu i annog darparu gwybodaeth yn gynnar.
- Roedd ymatebwr arall o blaid cyfyngiadau ar ailgyflwyno heriau llwyddiannus wedi'u hôl-ddyddio, gyda gostyngiadau ar gofnodion rhestri ardrethu a luniwyd yn cael eu hôl-ddyddio i 1 Ebrill o'r flwyddyn pan gafodd y cynnig i newid ei gyflwyno.

Casgliad

30. Y farn gyffredinol oedd bod y cynnig yn annheg, ac y dylai apelau llwyddiannus gael eu hôl-ddyddio i ddyddiad cofnod yr hereditament ar y rhestr ardrethu. Roedd teimlad bod gwrthod ad-daliad llawn i apelydd llwyddiannus pan brofwyd fod prisiad yn anghywir yn anghyfiawn.

Cosbau Sifil (Dirwyon)

31. Roedd y newidiadau a oedd yn cael eu cynnig yn yr ymgynghoriad yn cynnwys cyflwyno cosbau sifil (dirwyon) os oedd talwyr ardrethi neu eu cynrychiolwyr dynodedig yn fwriadol, yn ddi-hid neu drwy esgeulustra'n cyflwyno gwybodaeth ffug yn ystod unrhyw gam o'r broses apelio.

Cwestiwn 8 Beth yw eich barn ynghylch cyflwyno Cosbau Sifil am ddarparu gwybodaeth ffug yn fwriadol, yn ddi-hid, neu drwy esgeulustra, ac ynghylch lefelau'r cosbau hynny?

32. Ymatebion i'r ymgynghoriad

- Y farn gyffredinol oedd bod dirwyon yn briodol os oedd gwybodaeth ffug yn cael ei chyflwyno'n fwriadol. Fodd bynnag, roedd teimlad bod y termau 'yn ddi-hid' neu 'drwy esgeulustra' yn agored i gael eu dehongli'n wrthrychol ac y gallai hynny arwain at anghydfodau pellach ac at gosbi camgymeriadau dilys. Roedd ymatebion yn teimlo bod yn rhaid i'r amgylchiadau lle byddai dirwyon

yn cael eu cyflwyno gael eu diffinio'n ofalus. Roedd prisio'n cael ei weld fel rhywbeth a oedd yn seiliedig ar farn, crebwyll a phrofiad gyda ffin denau rhwng gwybodaeth ffug a gwybodaeth anghywir.

- Tynnodd sawl ymatebwr sylw ar yr angen i Asiantaeth y Swyddfa Brisio i ofyn cwestiynau perthnasol yn unig.
- Nododd rhai ymatebwyr y gallai talwyr ardrethi fod yn amharod i apelio rhag ofn iddynt gael eu dirwyo, yn enwedig talwyr ardrethi sy'n gweithredu'n annibynnol, heb asiant. Roedd rhai ymatebwyr yn credu y byddai dirwy lai o £100, sy'n debyg i gosbau ffurflenni treth, yn golygu y byddai'r amharodrwydd i apelio'n lleihau.
- Roedd rhai ymatebwyr yn poeni y byddai lefel y gosb yn cael ei chysylltu â gwerth ardrethol eiddo. Gallai'r prisiadau uchel sy'n amlwg mewn rhai sectorau arwain at safonau gwahanol, gyda'r posibilrwydd y gallai dirwyon fod yn gyfrwng i gynhyrchu refeniw. Felly, roeddent yn teimlo mai dirwy ar gyfradd safonol oedd yr unig ateb teg.
- Roedd un ymatebwr yn teimlo ei bod yn amhriodol i roi pwerau dirwyo i Asiantaeth y Swyddfa Brisio, ac y dylai'r pŵer i ddirwyo fod yng ngofal Tribiwnlys Prisio Cymru ar gais gan yr Asiantaeth.
- Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo y byddai cyflwyno system o ddirwyon yn arwain at fwy o fiwrocratiaeth ac anghydfodau sy'n heb gysylltiad â'r gyfundrefn dreth. Dywedwyd fod gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio bwerau ar hyn o bryd sy'n golygu bod yn rhaid i dalwyr ardrethi ddangos deiliadaeth a gwybodaeth arall (gan gynnwys costau a masnachu) sy'n berthnasol i brisiad eu heiddo a chyfundrefn cosbau sifil (trwy Ddeddf Menter 2016) i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofyniad. Ni ddylai fod angen am gyfundrefn gosbi ychwanegol.
- Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y byddai proses i apelio yn erbyn dirwyon a osodir yn hanfodol.
- Nododd Tribiwnlys Prisio Cymru fod Deddf Menter 2016 yn caniatáu i reoliadau gael eu gweithredu i roi pwerau i swyddogion prisio i osod cosbau o hyd at £500 am gyflwyno gwybodaeth ffug yn fwriadol, yn ddi-hid, neu drwy esgeulustra. Nodwyd hefyd, pe bai'r ddarpariaeth hon yn cael ei gweithredu, y dylid cael ffordd i apelio i'r tribiwnlys prisio yn erbyn y gosb a osodwyd.

Casgliad

33. Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai dirwyon yn briodol am gyflwyno gwybodaeth ffug yn fwriadol, ond y byddai'n rhaid diffinio'r paramedrau'n ofalus i osgoi anghydfodau pellach. Roedd ymatebwyr o'r farn y dylai lefel y dirwyon fod yn fforddiadwy i bawb i osgoi allgau pobl o'r broses apelio.

Ffioedd

34. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig y dylid cyflwyno ffioedd ar gyfer apelau ardrethi annomestig, yn unol â'r dull a ddefnyddir ar gyfer apelau a thribiwnlysoedd eraill.

Cwestiwn 9	Beth yw eich barn ynghylch cyflwyno ffioedd a lefelau'r ffioedd hynny?
------------	--

35. Ymatebion i'r ymgynghoriad

- Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd o blaid, neu nad oedd yn erbyn, cyflwyno ffioedd yn credu y dylai ffioedd gael eu cadw ar lefel fforddiadwy. Awgrymwyd ganddynt hefyd na ddylai lefel y ffioedd rwystro apelwyr posibl ac y dylent gael eu had-dalu os byddai eu hapêl yn llwyddiannus.
- Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai cyflwyno ffioedd fod yn seiliedig ar yr egwyddor bod Asiantaeth y Swyddfa Brisiol yn dryloyw a'i bod yn rhannu'r holl dystiolaeth sylfaenol berthnasol cyn apelio. Dylid cyflwyno safonau gofynnol ar gyfer y gwasanaeth a dylid ei fonitro'n ofalus.
- Roedd pryderon ynglŷn â chyflwyno ffioedd pan fo materion o'r fath yn cael eu hystyried gan dribiwnlys lleig. Un awgrym oedd y gellid defnyddio unrhyw ffioedd a gesglir i sicrhau aelodau tribiwnlys o ansawdd uwch.
- Roedd y rhai a oedd wedi crybwyll amseriad cyflwyno ffioedd yn cytuno y dylai fod yn y cam apelio (Tribiwnlys Prisio Cymru).
- Roedd y rhai a oedd yn erbyn cyflwyno ffioedd yn teimlo y gallai hyd yn oed ffi fechan rwystro rhai talwyr ardrethi, yn enwedig busnesau bach, rhag apelio, ac y dylai'r hawl i apelio fod yn agored i bob talwr ardrethi gan sicrhau'r un mynediad at gyfiawnder i bawb.
- Roedd Tribiwnlys Prisio Cymru yn credu y dylai ffioedd gael eu cyflwyno yn y cam apelio ac y dylent gael eu had-dalu'n llawn neu'n rhannol os oedd apêl yn llwyddiannus. Dylai'r tribiwnlys cael y pŵer i benderfynu ar lefel yr ad-daliad pan fydd apêl yn rhannol lwyddiannus. Roedd Tribiwnlys Prisio Cymru hefyd yn credu y dylai unrhyw ffioedd gael eu pennu ar lefel gymharol isel. Roedd yn credu hefyd na ddylai unrhyw ffioedd fod yn uwch na'r rhai sy'n daladwy yn achos CCA yn Lloegr ac y dylid cael ffioedd is ar gyfer eiddo â gwerth ardrethol sy'n llai na'r trothwy uchaf ar gyfer rhyddhad ardrethi busnes bach. Ni ddylai ffioedd gael eu cysylltu â gwerth ardrethol.

Casgliad

36. Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai cyflwyno ffioedd i atal apelau ffug neu amddiffynnol yn dderbyniol, ond ni ddylai lefel y ffioedd fod mor uchel fel y byddent yn rhwystro rhai rhag apelio. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y dylai ffioedd fod yn daladwy yn ystod y cam apelio (Tribiwnlys Prisio Cymru) ac y dylai apelwyr gael eu had-dalu os oedd apêl yn llwyddiannus.

Rôl Tribiwnlys Prisiau Cymru

37. Cynigiodd yr ymgynghoriad y byddai cyflwyno unrhyw dystiolaeth newydd yn y cam tribiwnlys yn cael ei gyfyngu ac yn cael ei ganiatáu'n unig os oedd y partïon dan sylw'n cytuno, neu mewn amgylchiadau eithriadol. Byddai Tribiwnlys Prisiau Cymru'n penderfynu a ddylid caniatáu tystiolaeth newydd.

Cwestiwn 10	Beth yw eich barn ynghylch defnyddio rheolaethau dros gyflwyno gwybodaeth ychwanegol (gwybodaeth nas cyflwynwyd ynghynt yn y broses apel) yn sail ar gyfer penderfyniad Tribiwnlys Prisiau Cymru?
-------------	---

38. Ymatebion i'r ymgynghoriad

- Roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig. Barnwyd ei bod yn hanfodol fod yr holl dystiolaeth berthnasol ar gael i Dribiwnlys Prisiau Cymru i'w alluogi i wneud penderfyniad teg, ac nad oedd dim cyfyngiadau artiffisial yn cael eu gosod ar y broses apelio. Dylai unrhyw dystiolaeth berthnasol gael ei hystyried wedyn gan Dribiwnlys Prisiau Cymru.
- Awgrymwyd nad yw gwybodaeth berthnasol weithiau'n dod i law tan yn hwyrach yn y broses, a byddai gwahardd cyflwyno gwybodaeth berthnasol o'r fath yn mynd yn groes i reolau cyfiawnder naturiol.
- Cafwyd cyfeiriad at y maint anghymesur o wybodaeth a gedwir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisiau nad yw ar gael i apelwyr yng nghamau cynnar y broses, ac y dylai Asiantaeth y Swyddfa Brisiau orfod datgelu'r dystiolaeth sy'n sail i'w phrasiadau.
- Mynegwyd pryderon am fod gan Asiantaeth y Swyddfa Brisiau ddisgresiwn absoliwt o ran perthnasedd gwybodaeth hwyr. Mae dyletswydd ar y ddau barti i'w datgelu, a Thribiwnlys Prisiau Cymru ddylai benderfynu ar berthnasedd gwybodaeth hwyr.
- Awgrymwyd y gellid cytuno ar gyfres o bamedrau o ran yr hyn y bernir sy'n 'berthnasol' rhwng Asiantaeth y Swyddfa Brisiau a'r Fforwm Asiantaeth Ardrethu.
- Dywedodd Tribiwnlys Prisiau Cymru y dylai'r defnydd o dystiolaeth ychwanegol, ac oedd wedi'i chyflwyno'n gynharach yn ystod cam y cais, fel sail i benderfyniad Tribiwnlys Prisiau Cymru gael ei chyfyngu mewn unrhyw weithdrefnau newydd oni bai y gellir dangos nad oedd modd gwybod am fodolaeth gwybodaeth o'r fath yn gynharach neu ei bod wedi dod i'r amlwg ers cwblhau cam y cais.

Casgliad

39. Roedd ymatebwyr yn teimlo ei bod yn hanfodol bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chyflwyno i Dribiwnlys Prisiau Cymru i'w alluogi i wneud penderfyniad cywir a theg, ac na ddylid gosod unrhyw gyfyngiadau ar gyflwyno

gwybodaeth o'r fath. Dywedodd ymatebwyr nad yw gwybodaeth hanfodol weithiau ar gael i apelwyr yng nghamau cynnar apêl.

Y Gymraeg

40. Gofynnwyd nifer o gwestiynau'n ymwneud ag effaith y cynigion hyn ar y Gymraeg.

Cwestiwn 11	Hoffai Llywodraeth Cymru wybod eich barn am effeithiau newidiadau i'r system apelio ar gyfer ardrethi annomestig ar y Gymraeg, yn benodol: i) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; ac ii) o ran sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau hyn yn eich tyb chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif, neu liniaru'r effeithiau negyddol?
Cwestiwn 12	Esboniwch sut y gellid ffurfio neu newid y newidiadau arfaethedig i'r system apelio ar gyfer ardrethi annomestig er mwyn: i) cael effaith gadarnhaol, neu fwy o effaith gadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â Saesneg ii) osgoi unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â Saesneg

41. Ymatebion i'r ymgynghoriad

- Roedd yr ymatebwyr yn credu y dylai'r system apelio fod yn gwbl hygyrch i bawb, beth bynnag fo'u hiaith.
- Cafwyd cydnabyddiaeth fod yr holl ddogfennaeth yn cael eu darparu yn Gymraeg a bod cyfleusterau ar gyfer siaradwyr Cymraeg ar gael mewn tribiwnlysoedd.
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn credu na fyddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg na'r defnydd ohoni.

Casgliad

42. Roedd yr ymatebwyr yn bositif ynglŷn â'r ffordd mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd yn y broses apelio ar gyfer ardrethi domestig ond roeddent yn awyddus i sicrhau na fyddai unrhyw newidiadau gweithdrefnol yn cael effeithiau andwyol ar y defnydd o'r Gymraeg na'r ffordd mae'n cael ei thrin.

Sylwadau Eraill

Cwestiwn 13 Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Defnyddiwch y gofod isod os hoffech godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi'u trafod yn benodol.

43. Ymatebion i'r ymgynghoriad

- Ar y cyfan, y farn oedd bod y system apelio bresennol yn gweithio'n dda yng Nghymru, ac y byddai cyflwyno 'Awdurdod i Weithredu' yn cael gwared ar apelau hapfasnachol.
- Os byddai newidiadau'n cael eu gwneud, dylid eu gohirio tan yr ailbrizio nesaf, gan y gallai newid y dull apelio ar ganol rhestr fod yn gymhleth a gallai achosi dryswch.
- Dylid hefyd fonitro llwyddiant ofalus, neu fel arall, CCA yn Lloegr, yn ofalus.
- Roedd sawl ymateb yn awgrymu mai diffyg gwybodaeth ddefnyddiol a chyflawn a ddarperir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio i'r talwyr ardrethi oedd y broblem fwyaf gyda'r system ardrethu yng Nghymru. Barnwyd fod datgelu llawn gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio cyn gynted â phosibl yn hanfodol i leihau apelau hapfasnachol neu ganfod ffeithiau.

Y Camau Nesaf

44. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu dadansoddi a'u defnyddio i oleuo unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu weinyddol i wella'r system.
45. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid i edrych yn fanwl ar oblygiadau posibl y cynigion.
46. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y pwyntiau ehangach a godwyd gan ymatebwyr fel rhan o'r broses ehangach o lunio polisi ardrethi annomestig.

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cymryd yr amser i ymateb i'r ymgynghoriad. Mae eich barn yn bwysig i oleuo'r penderfyniadau ar ddatblygu system apelio ddiwygiedig i Gymru. Rydym yn ddiolchgar am eich cyfraniadau.

Atodiad A: Rhestr o'r Ymatebwyr

Cafwyd ymatebion gan:

Dienw

GVA (ar ran Ystâd Gofal Sylfaenol GIG Cymru)

Yorkshire Building Society

Deloitte Real Estate

Halfords Group plc

Daniel Watney LLP

Gerald Eve LLP

Costa Limited

Atlas Hotels

Valero

Specsavers

Boots plc

Celtic Manor Resort

Whitbread Group

GVA Caerdydd

Accessible Retail Ltd

Tribiwnlys Prisio Cymru

RICS Cymru

ALMR

Homebase

Cyngor Sir Fynwy

Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain

Revo

FSB Cymru

G L Hearn

Altus Group/CVS

Kelvin Jefferies

IRRV

Cymdeithas Siopau Cyfleustra

Ffederasiwn Eiddo Prydain

Consortiwm Manwerthu Cymru

Cymdeithas Ganolog y Pristwyr Amaethyddol

Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain

Colliers International

Rating Surveyors Association

Montague Evans

Tom Dixon

Stonegate

Mr R W Ebley

